Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

16 Rhagfyr, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Blaen Gynllun Gwaith yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol |
| AWDUR: | Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried y Blaen Gynllun Gwaith.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cytuno ar y Blaen Gynllun Gwaith.

2.2. Y gall y Cadeirydd ddiwygio'r Cynllun er mwyn cymryd i ystyriaeth newidiadau mewn amserlennu gwaith, yn amodol ar ddod â'r Cynllun i gyfarfod dilynol yr is-bwyllgor i'w gytuno.

## 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Blaen Gynllun Gwaith yn nodi calendr o gyfarfodydd ar gyfer y cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2025, ac mae'n cyd-fynd ag amserlennu Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen, a gyda dyddiadau cyfarfod y CBC.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r Blaen Gynllun Gwaith yn nodi'r calendr cyfarfodydd, ac mae hefyd yn amlinellu'r gwaith sydd i'w wneud gan yr is-bwyllgor fel rhan o'i swyddogaethau dirprwyedig, a'r swyddogaethau hynny a gedwir gan y CBC sef cymeradwyo a diwygio polisi trafnidiaeth yn unol â Deddf Trafnidiaeth 2000.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Blaen Gynllun Gwaith yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol: Rhagfyr 2024 - Hydref 2025 |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Mae proses ddemocrataidd yr is-bwyllgor yn cael sylw drwy raglen waith wedi'i chytuno, a gaiff ei hamlinellu yn y Blaen Gynllun Gwaith hwn.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.”